# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 3 Mawrth 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 4 Mawrth 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Mawrth 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

**PWNC:** Gwerthu Rhydd Ddaliad lleiniau 8 a 9, Stad Diwydiannol Penygroes.

**PENDERFYNIAD –** Argymhellir fod y Cyngor yn rhoi prydles ar gyfer adeiladu Unedau Diwydiannol ar y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, gyda'r opsiwn i'r darpar denant brynu'r rhyddfraint unwaith bo'r datblygiad wedi ei gwblhau. Y pryniant i fod yn amodol ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Yr Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis – Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 02.03.2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Gwerthu Rhydd Ddaliad lleiniau 8 a 9, Stad Diwydiannol Penygroes.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Argymhellir fod y Cyngor yn rhoi prydles ar gyfer adeiladu Unedau Diwydiannol ar y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, gyda'r opsiwn i'r darpar denant brynu'r rhyddfraint unwaith bo'r datblygiad wedi ei gwblhau. Y pryniant i fod yn amodol ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn unol a Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen Penderfyniad Aelod Cabinet i waredu eiddo pan fod y pris gwerthu uwchlaw £25,000.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull traddodiadol o waredu eiddo'r Cyngor yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd cynigion fel bod gan unrhyw rai sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Yn dilyn sawl ymgais farchnata aflwyddiannus, mae cynnig derbyniol wedi ei dderbyn gan ddarpar brynwr sy'n fodlon ymrwymo i ddarparu Unedau Diwydianol fydd ar gael i'r farchand, ynogystal a diwallu anghenion ei funses eu hun.

Er mwyn sicrhau fod datblygiad yr unedau yn cael ei wireddu gan ddarparu cyfleon o ran cyflogaeth yn yr ardal yn unol a dyheuadau'r Adran Economi sydd a chyfrifoldeb am y safle, bydd y trosglwyddiad yn digwydd mewn dau gam.

Fel cam cyntaf, bydd prydles adeiladu 5 mlynedd yn cael ei ddarparu i'r darpar brynwr am bremiwm fydd gyfystyr a gwerth marchnad agored y safle, a hynny er ei alluogi i ddatblygu unedau diwydiannol ar y safle. Bydd y les yn cynnwys yr opsiwn i'r darpar brynwr gael trosglwyddiad o ryddfraint y safle unwaith bo'r Unedau wedi eu cwblhau.

Fel ail gam, cyn belled a bo'r unedau wedi eu cwblhau ofewn cyfnod y brydles (5 mlynedd), bydd gan y prynwr yr opsiwn i gael trosglwyddiad o ryddfraint y safle am swm enwol.

Nid oes unrhyw fwriad gwaredu am lai na gwerth y farchnad.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**


Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – "“Gan fod ymdrechion i farchnata'r eiddo wedi bod yn aflwyddiannus hyd yma, mae'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn y daflen benderfyniad yma yn ymddangos i mi fel dull rhesymol o symud ymlaen, ac yn ffordd o sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gydnabyddiaeth orau posib o dan yr amgylchiadau."

**Swyddog Monitro** – "Yn amlwg bydd angen mewnbwn y Gwasanaethau Cyfreithiol I sicrhau fod y cytundebau yn darparu ar gyfer cyflawni yr amcanion . Dim sylwadau penodol o ran priodoldeb."

**Aelod/au Lleol** – Judith Humphries – "Nid oes gennyf wrthwynebiad."




Plotiau 8+9 Plots
Er diben Adnabod yn unig
For Illustration Purposes Only

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd Council